

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi eu paratoi yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 12(2) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 am y flwyddyn i 31 Mawrth 2010, ynghyd â Thystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y cyfrifon hynny.

Gosodwyd gerbron y Cynulliad ar 1 Gorffennaf 2010 yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 Atodlen 1, Paragraff 12(4)

Bwrdd yr Iaith Gymraeg**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009-2010**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Cynnwys

	Tudalen
Adroddiad yr Aelodau	1
Sylwadaeth Rheoli	6
Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth	10
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr	15
Datganiad ar Reolaeth Fewnol	16
Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	19
Cyfrif Gwariant Net	22
Datganiad Sefyllfa Ariannol	23
Datganiad Llifoedd Arian	25
Datganiad o Newidiadau i Ecwiti'r Trethdalwr	26
Nodiadau i'r Cyfrifon	27

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Adroddiad yr Aelodau

Hanes y Bwrdd a Gwybodaeth Statudol Gefndirol

Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 21 Rhagfyr 1993. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi gan y Bwrdd o dan Atodlen 1, Paragraff 12 y Ddeddf ar ffurf sydd wedi'i chyfarwyddo gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae copïau o'r cyfarwyddyd hwn ar gael o swyddfeydd y Bwrdd.

Rhoddodd y Ddeddf i'r Bwrdd y swyddogaeth o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg, i ddarparu i gyrff cyhoeddus baratoi cynlluniau i weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

I gyflawni hyn y mae gan y Bwrdd y swyddogaethau canlynol:

1. Cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion ynglŷn â'r iaith Gymraeg.
2. Cynghori personau sy'n ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ar y ffyrdd o weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
3. Cynghori'r rheini a phersonau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae Adolygiad Blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 13(1) Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau'r Bwrdd am y flwyddyn 1 Ebrill 2009 hyd at 31 Mawrth 2010.

Canlyniadau a Chyfeddiant

Corff cyhoeddus yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfanswm y cymorth grant ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2009 hyd at 31 Mawrth 2010 oedd £13,653,000 O'r cyfanswm hwn, bwriadwyd £100,000 ar gyfer gwariant cyfalaf. Credydwyd cyfanswm y cymorth grant i'r gronfa gyffredinol. Y costau gweithredu net yn ystod y flwyddyn oedd £13,781,000, (2008-2009; £13,512,000). Ar 31 Mawrth 2010 roedd y gronfa gyffredinol yn £596,000 (2008-2009: £701,000).

Rhwymedigaethau Pensiwn

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronodig Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn nodiadau 1.6, 5 a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Tâl yr Archwilwyr Allanol

Datgelir symiau sy'n daladwy am waith heb fod yn waith archwilio a gwblhawyd gan yr archwilwyr allanol yn nodyn 6 i'r cyfrifon.

Cofrestr Diddordebau

Ceir manylion am unrhyw ddiddordebau sylweddol Aelodau'r Bwrdd yn nodyn 16 i'r cyfrifon.

Datblygiadau yn y Dyfodol

Amlinellir dyheadau'r Bwrdd ar gyfer 2010-11 yn ei Gynllun Gweithredol cyfredol.

Ymysg y prif ddatblygiadau fydd:

1. Cynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad gyda'i rhaglen ddeddfwriaethol, wrth gyfrannu i'r gwaith fydd ei angen er mwyn gwireddu'r Mesur iaith arfaethedig, a chydweithio â'r Llywodraeth i esbonio cynnwys y Mesur i bobl eraill.
2. Cydweithio â Llywodraeth y Cynulliad i baratoi strategaeth iaith i'w chyhoeddi yn ystod 2010.
3. Trwy gyfrwng ein hymgyrch Mae Gen Ti Ddewis a phrosiectau eraill, ceisio cynyddu'r defnydd y mae siaradwyr Cymraeg yn ei wneud o'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg
4. Gweithio i sicrhau cynnydd pellach yn y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg yn y sector preifat.
5. Parhau i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan gynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth a sensitifrwydd ieithyddol, a thynnu sylw sefydliadau at ganllaw "Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog" y Bwrdd.
6. Parhau i weithio gyda'r Mentrau Iaith a phartneriaid cymunedol eraill, a thrwy ein Cynlluniau Gweithredu Iaith, ar wahanol gynlluniau cymunedol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
7. Parhau i geisio cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg, drwy ein prosiect Twf, drwy hyrwyddo addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg; a thrwy hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymunedau.
8. Monitro a diwygio Cynlluniau Iaith Gymraeg sydd eisoes wedi'u cymeradwyo.
9. Parhau i gydweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad, gyda'r nod o sefydlu Canolfan Safoni Termâu Genedlaethol.
10. Parhau i weithredu ein Strategaethau Sector Gwirfoddol, Cyfieithu, a Thechnoleg Gwybodaeth, ar y cyd â phartneriaid allweddol ymhob maes.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Ymchwil

Dechreuwyd dwy ysgoloriaeth ddoethuriaeth tair blynedd: Manteision addysg Gymraeg a dwyieithog, Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor, a Cymraeg Ysgrifenedig: Rhai Patrymau Caffael, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor.

Parhaodd y gwaith ar yr ysgoloriaethau PhD canlynol:

- Gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol: adolygiad systematig o'r cyflenwad a'r galw er mwyn hysbysu polisi ac ymarfer (Ysgol Astudiaethau Iechyd, Prifysgol Bangor).
- Sicrhau Gwell Cyfraddau Dilyniant o CA2 i CA3: ymchwilio i gynnydd a cholled ieithyddol disgyblion ysgol wrth iddynt ddewis rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith er mwyn codi ymwybyddiaeth addysgwyr, rhieni a disgyblion (Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor).
- Terminoleg Gymraeg arbenigol mewn gweithleoedd proffesiynol: hygyrchedd, gallu a defnydd (Canolfan Ymchwil Iaith a Chyfathrebu, Prifysgol Caerdydd).
- Pobl Ifanc ac Allfudo o'r Bröydd Cymraeg: Cymhellion a Dyheadau (Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Bangor).

Materion Amgylcheddol

Ystyri brif effeithiau amgylcheddol y Bwrdd fel defnydd o ynni, defnydd o drafnidiaeth, defnydd papur a gwastraff papur. Drwy bolisi amgylcheddol y Bwrdd, bydd y sefydliad yn ymrwymo i:

- atal llygredd
- welliant parhaus o ran rheoli a pherfformiad amgylcheddol
- gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, rheoliadau a gofynion eraill amgylcheddol
- lleihau defnydd papur
- defnyddio papur wedi ei ailgylchu yn unig
- ailgylchu gwastraff lle bo modd
- lleihau defnydd o ynni y mhob swyddfa
- cynyddu defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau angenrheidiol a chynadleddau drwy fideo

Bydd y sefydliad yn sicrhau bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu cadw drwy hyfforddi staff a gosod cynllun gwella.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Aelodau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr

Aelodau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn oedd:

Meri Huws	Cadeirydd
Meirion Prys Jones	Prif Weithredwr
Nicholas Bennett	
G Owen Evans	
Gwyneth Morus Jones	
Huw Jones	
Dr Arun Midha	
Marc Phillips	
Catherine Rees	
Rhiannon Walters	
Yr Athro Colin Williams	
Elin Wyn	

Mae Gweinidogion Cymru wedi ailbenodi Meri Huws yn Gadeirydd am gyfnod o 3 blynedd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2013.

Daeth cyfnod aelodaeth Dr Arun Midha, Rhiannon Walters a'r Athro Colin Williams i ben ar 31 Mawrth 2010. Yn ogystal ailbenodwyd gweddill yr aelodau am gyfnod o 3 blynedd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2013.

Absenoldeb salwch

Roedd cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch yn 262 (377 diwrnod 2008-2009). Roedd y cyfartaledd diwrnodau gwaith a gollwyd fesul y pen (cyfwerth llawn amser) yn 3.49 wedi'i seilio ar 75 aelod o staff cyfwerth llawn. (5.24 diwrnod a 72 o staff yn 2008-2009).

O'r diwrnodau gwaith a gollwyd, roedd 76% ohonynt yn absenoldeb tymor byr, a'r gweddill (24%) yn absenoldeb hir dymor.

Darparu gwybodaeth i weithwyr ac ymgynghori â hwy

Mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu â'i holl weithwyr a rhoi gwybod iddynt am ddatblygiadau mewnol ac allanol. Bydd y Bwrdd yn parhau i ymgynghori â chynrychiolwyr staff ynglŷn ag unrhyw fater sy'n effeithio ar delerau ac amodau cyflogaeth.

Polisi taliadau

Mae'n ofynnol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan y Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, a'r *UK Government's Better Payment Practice Code* dalu anfonebau credydwy'r nad ydynt o dan anghydfod o fewn 30 diwrnod o dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, p'un bynnag sydd hwyrach.

Anela Bwrdd yr Iaith Gymraeg i dalu 100% o anfonebau gan gynnwys anfonebau o dan anghydfod pan fydd yr anghydfod wedi ei ddatrys, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

flwyddyn i 31 Mawrth 2010, talodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg 99.5% o'r taliadau oedd yn ddyledus o fewn telerau ei bolisi taliadau. Ers Tachwedd 2008 anelodd y Bwrdd yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i dalu anfonebau o fewn 10 diwrnod. Yn ystod 2009-2010 talwyd 87.5% o'r taliadau oedd yn ddyledus o fewn 10 diwrnod.

Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni chafwyd digwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar ddealltwriaeth y datganiadau ariannol hyn.

Archwilwyr

Archwiliwyd cyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Atodlen 1, Paragraff 12(4) Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Hyd y gwyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohonynt, ac mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam y dylai ei gymryd i'w wneud ei hunan yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Meirion Prys Jones
Swyddog Cyfrifo
Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
24 Mehefin 2010

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Sylwadaeth Rheoli

Ymysg prif lwyddiannau 2009-2010 yr oedd y canlynol :

- Cyflawni'r targedau i gymeradwyo Cynlluniau Iaith newydd, diwygio Cynlluniau Iaith, ac ymateb i adroddiadau monitro.
- Cynnal am y nawfed flwyddyn y prif brosiect arloesol Twf, sy'n ceisio perswadio rhieni i godi eu plant yn ddwyieithog, ac i ddewis addysg cyfrwng Gymraeg iddynt.
- Gweithredu'r strategaethau cyfredol mewn nifer o brif feysydd polisi sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg –y Sector Gwirfoddol; Technoleg Iaith; Data; a Chyfieithu.
- Dosbarthu £4.6 miliwn mewn grantiau i gyrff i hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg, a £2.9 miliwn i hyrwyddo addysg Gymraeg.
- Hybu dulliau cymunedol i gefnogi'r iaith Gymraeg: 21 o Fentrau Iaith mewn 21 sir; a 10 Cynllun Gweithredu Iaith mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig ledled Cymru.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Dyma dabl sy'n gosod allan berfformiad yn erbyn y targedau allweddol o'r cynllun gweithredol:

	Perfformiad 2008-2009	Amcan	Targed 2009-2010	Perfformiad 2009-2010	Sylwadau
Cynlluniau iaith Gymraeg					
1a.	43	Cymeradwyo cynlluniau iaith newydd	77	87	
1b.	190	Ymateb i adroddiadau monitro ar Gynlluniau Iaith Gymraeg	128	155	
1c.	30	Diwygio Cynlluniau Iaith	41	46	
2. Cynlluniau addysg Gymraeg					
2a.	3	Awdurdodau y mae eu hail gynlluniau wedi eu cytuno, ac wedi derbyn cymeradwyaeth iawn gan y Bwrdd rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010	6	2	Ni lwyddwyd i gyrraedd y targedau hyn yn llawn, yn bennaf am ein bod yn ddi-bynnol ar gydweithrediad y cyrff perthnasol, a hefyd oherwydd newidiadau staffio yn fewnol.
2b.	3	Derbyn ac ymateb i adroddiadau monitro diwedd blwyddyn yr awdurdodau sydd yn gweithredu eu hail Gynllun Addysg Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010	16	11	
3.	Grantiau i hyrwyddo addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog				

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

	Perfformiad 2008-2009	Amcan	Targed 2009-2010	Perfformiad 2009-2010	Sylwadau
3a.	159	Nifer y swyddi Athrawon Bro a gefnogir	140	141.35	
3b.	20,000	Nifer yr ymweliadau ysgol gan Athrawon Bro a gefnogir	26,000	26,500	
3c.	26	Nifer yr athrawon mewn canolfannau i hwyrddyfodiaid a gefnogir	20	25.7	
4.	Grantiau i hyrwyddo'r Gymraeg				
4a.	9%	Cefnogi Mudiad Ysgolion Meithrin <ul style="list-style-type: none"> Cynyddu niferoedd y plant mewn cylchoedd Ti a Fi Sefydlu cylchoedd Ti a Fi newydd Sefydlu Cylchoedd Meithrin newydd 	3%	Ni fydd data ar gael gan MYM tan mis Gorffennaf 2010	
	32		25	31	
	26		10	10	
4b.	Cynhaliwyd 21 Menter mewn 21 Sir	Cefnogi'r Mentrau Iaith	Cynnal 21 Menter Iaith i wasanaethu 21 Sir	Cyrhaeddwyd y targed	
4c.	Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer dros 50,000 o aelodau	Cefnogi Urdd Gobaith Cymru	Cynnal amryfal weithgareddau ar gyfer dros 50,000 o aelodau	Cyrhaeddwyd y targed	

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

	Perfformiad 2008-2009	Amcan	Targed 2009-2010	Perfformiad 2009-2010	Sylwadau
4ch.	157,000	Cefnogi Eisteddfod Genedlaethol Cymru Denu ymwelwyr i'r Wyl	Denu 150,000 o ymwelwyr i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Bala .	Cyrhaeddwyd y targed	
5.	Twf				
5a.	Cyrhaeddwyd y targed, gan gynnal 15,280 o gysylltiadau un wrth un	Cynnal cynllun Twf Cyflogi swyddogion cenedlaethol a swyddogion maes	Cynnal 12,000 o gysylltiadau un i gyda rhieni er mwyn trosglwyddo neges Twf	Cyrhaeddwyd y targed, gan gynnal 12,362 o gysylltiadau un i un	
	Cyrhaeddwyd y targed gan gysylltu â 94% o'r bydwagedd mewn ardaloedd gwledig, a 88% mewn rhai trefol		Cynnal cyswllt gyda 90% o fydwagedd mewn ardaloedd gwledig y cynllun, a 50% mewn ardaloedd trefnol y cynllun	Cyrhaeddwyd y targed gan gysylltu â 94% o'r bydwagedd mewn ardaloedd gwledig, a 75% o'r rhai trefol	

Meirion Prys Jones,
Swyddog Cyfrifo,
Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
24 Mehefin 2010

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae amodau a thelerau'r staff a gyflogir (gan gynnwys staff hŷn) yn cyfateb i amodau a thelerau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Telir aelodau'r Bwrdd yn unol â chyfraddau a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithredu Cynllun Asesu Perfformiad ar gyfer ei holl staff, ac mae hwn yn cyfateb i'r cynllun a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ni chyplysir taliadau cydnabyddiaeth â pherfformiad.

Ar y cyfan, cyflogir staff (gan gynnwys staff hŷn) i swyddi parhaol, ar wahân i staff a benodir i weithio ar brosiectau â therfyn penodedig, ac yn yr achosion hynny, byddai contractau staff yn cydweddu â therfyn y prosiect. Mae cyfnodau rhybudd yn amrywio o bedair wythnos i dri mis, yn ddibynnol ar lefel gwasanaeth a'i hyd. Nid oes gan y Bwrdd ddirprwyaeth ar gyfer gwneud taliadau terfyniad.

Mae rhagor o fanylion am gostau staff ac aelodau wedi eu cynnwys o fewn nodiadau 1.6, 1.12 a 5 i'r cyfrifon.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Taliadau Cydnabyddiaeth (*)

(*) Mae'r adran yn amodol ar archwiliad

Rhestrir yn yr adrannau sy'n dilyn hawliau taliadau cydnabyddiaeth a diddordebau pensiwn y Cadeirydd a staff mwyaf hŷn y Bwrdd, sydd ag awdurdod neu gyfrifoldebau am gyfeirio a rheoli prif weithgareddau'r Bwrdd:

Enw a theitl	Band cyflog 2009-2010	Band cyflog 2008-2009
	£'000	£'000
Meri Huws, Cadeirydd	35-40	30-35
Meirion Prys Jones, Prif Weithredwr	75-80	75-80
Ifan Evans Cyfarwyddwr Sector Preifat a Busnes	50-55	50-55
Jeremy Evas Cydllynydd Grantiau a Phrosiectau	45-50	45-50
Sali Wyn Islwyn Cyfarwyddwr Datblygu Cymunedol	45-50	40-45
Gareth Jones, Cyfarwyddwr Adnoddau (hyd at 31 Rhagfyr 2009)	30-35 (45-50 cyfwerth llawn amser)	45-50
Gwynedd Morris Jones Cyfarwyddwr Polisi a Therminoleg	50-55	50-55
Siân Parry Jones, Cydllynydd Materion Corfforaethol	45-50	45-50
Enid Lewis, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Canolog	50-55	50-55
Gari Lewis, Cyfarwyddwr Plant a Phobl Ifanc (o 1 Mai 2008)	50-55	45-50 (50-55 cyfwerth llawn amser)
Gwenith Price Cyfarwyddwr Cynlluniau Iaith	50-55	50-55

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Enw a theitl	Cyfanswm y pensiwn cronedig a chyfanddaliad perthnasol ar oedran ymddeol normal ar 31/03/10	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran ymddeol normal a chyfanddaliad perthnasol	Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar 31/03/10	Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar 31/03/09	Cynnydd gwirioneddol yng Ngwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ariannwyd gan y cyflogwr
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Meri Huws, Cadeirydd	0-5	0-2.5	22	17	3
Meirion Prys Jones, Prif Weithredwr	15-20 Gyda chyfandaliad 45-50	0-2.5 Gyda chyfandaliad 2.5-5	331	287	27
Ifan Evans Cyfarwyddwr	0-5	0-2.5	26	15	8
Jeremy Evas Cydlynnydd	5-10 Gyda chyfandaliad o 20-25	0-2.5 Gyda chyfandaliad o 0-2.5	84	70	9
Sali Wyn Islwyn Cyfarwyddwr	5-10 Gyda chyfandaliad o 15-20	0-2.5 Gyda chyfandaliad o 2.5-5	98	76	17
Gareth Jones, Cyfarwyddwr	25-30 Gyda chyfandaliad o 75-80	0-2.5 Gyda chyfandaliad o 2.5-5	629	565	21
Gwynedd Morris Jones Cyfarwyddwr	20-25 Gyda chyfandaliad o 70-75	0-2.5 Gyda chyfandaliad o 2.5-5	582	527	27
Siân Parry Jones, Cydlynnydd	10-15 Gyda chyfandaliad o 30-35	0-2.5 Gyda chyfandaliad o 0-2.5	141	123	10
Enid Lewis, Cyfarwyddwr	10-15 Gyda chyfandaliad o 10-15	0-2.5 Gyda chyfandaliad o 0-2.5	157	133	14
Gari Lewis Cyfarwyddwr	0-5	0-5	33	15	16
Gwenith Price Cyfarwyddwr	10-15	0-5	208	170	27

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad a bonysau, goramser a lwfans cyfrifoldeb pan fo'n briodol. Mae cyflog y Prif Weithredwr yn cynnwys cyflog gros o £72,823 (2008-2009: £71,747) a bonws amhensiwnadwy o £6,098 (2008-2009 £5,250).

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn aelodau o Bensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSP). Penodwyd Meirion Prys Jones yn Brif Weithredwr o 1 Ebrill 2004 ar gytundeb parhaol. Mae cyflog y Cadeirydd yn cynnwys cyflog gros o £35,048 (2008-2009: £34,538). Mae'r Cadeirydd ar gytundeb i weithio 2 ddiwrnod yr wythnos gydag aelodau eraill y Bwrdd ar gytundeb i weithio 2 ddiwrnod y mis am gyflog amhensiwnadwy o £6,768 y flwyddyn (2008-2009: £6,752).

Buddion mewn Da

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ystyrir gan Gyllid a Thollau yn daliad trehadwy. Ni wnaed buddion mewn da yn ystod 2009-2010 neu 2008-2009 i staff hŷn nac i aelodau'r Bwrdd.

Pensiynau

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun statudol sydd yn gynllun buddiannau diffiniedig ar sail 'cyflog terfynol' (*classic*, *premium* a *classic plus*) neu 'cynllun holl yrfa' (*nuvos*). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu, a'r Senedd sy'n diwallu costau'r buddion bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan *classic*, *premium*, *classic plus* a *nuvos* yn flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Mân-werthu. Gallai'r aelodau a ymunodd â'r cynllun wedi 1 Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r trefniant budd diffiniedig priodol neu ymaelodi â phensiwn budd-ddeiliad 'pwrcasu ariannol' o ansawdd dda gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif partneriaeth pensiwn).

Gosodir cyfraniadau'r cyflogai ar raddfa 1.5% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer *classic*; 3.5% ar gyfer *premium*, *classic plus*, *classic* a *nuvos*. Bydd buddion y cynllun *classic* yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 80 o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymdeol. Ar gyfer *premium*, bydd buddion yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 60 o'r enillion pensiynadwy gorffenedig ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i *classic*, ni cheir cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae *classic plus* yn gynllun cymysg, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras megis *classic*, a buddion am wasanaeth o 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrif megis *premium*. Yn *nuvos*, mae aelod yn adeiladu pensiwn sydd wedi ei seilio ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod cyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif pensiwn cyflogadwy'r aelod ei gredu â 2.3% o'r cyflog pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno, ac ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun caiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r Mynegai Prisiau Mân-werthu. Ymhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniad pensiwn rhan-ddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

mewn i gynnyrch pensiwn rhan-ddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel sy'n cynnwys tri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle byddant yn cyfrannu, bydd y cyflogai'n cyfrannu'n gyfatebol hyd at gyfyngiad o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am sicrwydd budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei dderbyn pan fyddant yn cyrraedd oedran ymddeol, neu'n syth wedi iddynt beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os byddant eisoes wedi cyrraedd yr oedran ymddeol. Yr oedran ymddeol yw 60 ar gyfer *classic*, *premium* a *classic plus*, a 65 ar gyfer aelodau *nuvos*.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am drefniadau'r pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol

Ystyr Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol (*CETV*) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actiwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae *CETV* yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant er mwyn sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid dim ond eu gwasanaeth mewn swyddogaeth hyn y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant y mae'r unigolyn wedi eu trosglwyddo i drefniadau'r Gwasanaeth Sifil y derbyniodd Pleidlais Blwydd-dal Sifil Swyddfa'r Cabinet daliad trosglwyddo amdano sy'n gymesur i'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol sy'n cael eu hysgwyddo. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn arall a gronnir i'r aelod o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi pwrcasu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei draul ei hun. Cyfrifir *CETVs* o fewn canllawiau a'r fframwaith a nodir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariau, ond nid ydynt yn cymryd ystyriaeth o unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad potensial i fudd-daliadau sy'n deillio o'r Dreth Lwfans dros Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir budd-daliadau pensiwn.

Cynnydd Gwirioneddol Mewn *CETV*

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn *CETV* sydd wedi ei ariannu'n effeithiol gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

**Meirion Prys Jones,
Swyddog Cyfrifo,
Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
24 Mehefin 2010**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr

O dan Baragraff 12(1) Atodlen 1 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg baratoi datganiad o'r cyfrifon mewn perthynas â phob blwyddyn gyfrifo ar ffurf ac ar sylfaen sydd wedi'u cyfarwyddo gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi. Llunnir y cyfrifon ar sail groniatol, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod, ac ar y gwariant net a'i lifoedd arian am y flwyddyn.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Bwrdd gydymffurfio â gofynion *Government Financial Reporting Manual* ac yn arbennig i:

- ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datguddiadau, a gweithredu polisiau cyfrifyddu perthnasol a'u defnyddio'n gyson
- llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol
- datgan a gadwyd at y safonau cyfrifyddu addas a osodwyd yn *Government Financial Reporting Manual*, a datguddio ac esbonio unrhyw wyro materol a welir yn y datganiadau ariannol
- llunio datganiadau ariannol ar sail bod yn fusnes gweithredol, onid yw'n amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y Bwrdd yn dal yn weithredol

Mae Swyddog Cyfrifo Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer y Bwrdd. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian/cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol drostynt, a thros gadw cofnodion priodol ac i warchod asedion Bwrdd yr Iaith Gymraeg, wedi eu nodi yn y memorandwm *Accounting Officers' Memorandum* a ryddhawyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Datganiad ar Reolaeth Fewnol

1. Cwmpas y Cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifo, yr wyf â chyfrifoldeb dros gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol sy'n cefnogi llwyddiant polisiau, amcanion a nodau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac sy'n gwarchod y cronfeydd cyhoeddus a'r asedion yr wyf i yn bersonol â chyfrifoldeb drostynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn *Managing Public Money*.

2. Pwrpas y System Reolaeth Fewnol

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli i lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethu cyflawni'r polisiau, y nodau a'r amcanion; gall y drefn felly roi sicrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r drefn o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i adnabod a blaenoriaethu'r prif risgiau o gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Bwrdd; i werthuso tebygolrwydd natur ac ehangder y risgiau hynny, os llwyddwn eu cyrraedd; a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol, ac yn economaidd. Mae'r broses hon wedi bod yn ei lle yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2010 ac yr oedd yn ei lle ar ddyddiad awdurdodi'r adroddiad blynyddol a'r chyfrifon ac y mae'n gytûn â chyfarwyddyd y Trysorlys.

3. Cymhwysedd i Drin Risg

Mae trefn rheolaeth fewnol y Bwrdd wedi ei seilio ar fframwaith o wybodaeth rheoli, rheoliadau ariannol a threfniadau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu cyfrifoldebau.

Mae'r Bwrdd wedi:

- cynnal cyfarfodydd llawn agored o'r Bwrdd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn i gytuno cynlluniau a chyfeiriad strategol y Bwrdd;
- sefydlu Tîm Rheoli sydd yn cwrdd bob pythefnos i ystyried rheolaeth fewnol a materion gweinyddol, a Phwyllgor Adolygu Cynnydd sy'n cymryd penderfyniadau polisi allweddol, a'u hadolygu;
- penodi aelod hŷn o'r staff yn Rheolwr Risg;
- derbyn adroddiad oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd ynglŷn â rheolaeth fewnol;
- derbyn adroddiadau rheolaidd gan archwilwyr mewnol, yn unol â safonau sy'n cael eu pennu yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sydd yn cynnwys barn annibynnol Pennaeth ein Harchwilwyr Mewnol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system y Bwrdd o reolaeth fewnol yn ogystal ag argymhellion i wella;
- sicrhau trafod rheoli risg yn rheolaidd gan y Tîm Rheoli i adnabod amcanion a risgiau'r Bwrdd – ac i bennu strategaeth reoli ar gyfer pob risg;
- darparu cofrestr rheoli risg, a anfonwyd i staff allweddol, sy'n gosod allan agwedd y Bwrdd tuag at bob risg;
- clustnodi cyfrifoldeb am y weithred ynghlwm â phob risg, yn ogystal â llinellau terfyn ar gyfer gweithredu;
- rhoi hyfforddiant rheoli risg, fel yn briodol, i staff y Bwrdd;

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

- cytuno i adolygu'r ddogfen rheoli risg yn gyson.

4. Fframwaith Risg a Rheolaeth

Mae system risg a rheolaeth y Bwrdd yn gweithredu ar sawl lefel o fewn y gyfundrefn, gan gynnwys y Bwrdd ei hun, y Tîm Rheoli, arweinyddion uned a system o reolaeth sylfaenol y Bwrdd.

Rheolaeth fewnol yw'r holl system o reolaeth, ariannol neu arall, a sefydlwyd gan y Bwrdd, rheolwyr a phersonél arall er mwyn cynnal busnes y Bwrdd mewn modd trefnus, effeithiol ac effeithlon; sicrhau ymlyniad polisïau rheoli; diogelu ei asedion; cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, gan sicrhau, cyn gynted â phosibl, gyfanrwydd a chywirdeb y cofnodion.

Cadarnheir gweithredu boddhaol y system o reolaeth gan y Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn y modd canlynol:

- Mae adolygu rheolau monitro gan y Bwrdd a'r Tîm Rheoli, megis dangosyddion perfformiad, cymariaethau â chyllidebau neu amcanion (fel y'u gosodir yn y Cynllun Gweithredol) a chyfrifon rheoli, yn darparu cysur na fu gwyro heb esboniad o'r perfformiad disgwylidig, na diffyg neu doriad mewn rheolau ar lefel sylfaenol.
- Mae adroddiadau (ffurfiol ac anffurfiol) yn cael eu paratoi'n rheolaidd gan yr adrannau gweithredol ac yn cael eu cyflwyno'n fisol i'r Cyfarfod Dalwyr Cyllideb (a gadeirir gan y Prif Weithredwr), ac yn chwarterol i'r Bwrdd, o ran materion sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bwrdd. Yn ogystal, mae Cynlluniau Gweithredol yn cael eu paratoi'n flynyddol, ynghyd ag adolygiad blynyddol, adroddiad blynyddol a chyfrifon.
- Ymgwymerodd PriceWaterhouseCoopers ag archwiliad mewnol y Bwrdd yn seiliedig ar y "Strategaeth Archwilio Mewnol".

Ar ben hyn, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar ei archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd.

Adolygwyd y Gofrestr Risg yn llwyr yn ystod 2009-2010, ac yn erbyn pob risg mae mesur o'i thebygolrwydd, crynodeb o'r gweithredu gofynnol arni, enw'r sawl sydd â phrif gyfrifoldeb drosti, ac asesiad cyfredol y Rheolwr Risg ohoni.

Mae'r Bwrdd wedi adnabod diogelu data fel maes risg penodol ar ei Gofrestr Risg. Ers Ionawr 2010 mae aelod o staff a'r cyfrifoldeb o sicrhau cydymffurfiaeth yn y maes, diweddarwyd canllawiau o ran y Ddeddf Diogelu Data a darparwyd mwy o hyfforddiant i staff penodol gyda mwy eto wedi cynllunio. Yn 2009-2010 ni chafwyd digwyddiadau tyngedfennol o ran diogelwch data

Bydd adolygiadau nesaf o'r Gofrestr Risg yn cymryd ystyriaeth o archwaeth risg gan ddilyn cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a gyhoeddwyd yn 2010 *The Statement on Internal Control: A Guide for Audit Committees*.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

5. Adolygiad Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifo, yr wyf â chyfrifoldeb dros gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol. Ychwanegir at fy arolwg o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr hŷn o fewn y Bwrdd sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a chan sylwadau a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheolaeth ac mewn adroddiadau eraill. Cefais fy nghynghori ar arwyddocâd canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a'n Rheolwr Risg; ac mae cynllun i gywiro gwendidau ac i sicrhau gwelliant parhaol o'r system yn ei le.

6. Problemau Rheolaeth Fewnol Sylweddol.

Ni ddaethpwyd o hyd o ganlyniad i'm hadolygiad unrhyw anawsterau rheolaeth fewnol allweddol.

**Meirion Prys Jones,
Swyddog Cyfrifo,
Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
24 Mehefin 2010**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd yr Iaith Gymraeg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 12(4) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Costau Gweithredu, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau Mewn Ecwiti'r Trethdalwr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Prïod gyfrifoldebau'r Bwrdd, y Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chyfarwyddiadau Gweinidogion a wnaed o dan y Ddeddf honno ac ar gyfer sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, ac â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Byddaf yn rhoi fy marn ar b'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg a ph'un a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chyfarwyddiadau Gweinidogion a wneir o dan y Ddeddf honno. Nodaf, yn fy marn i, a yw'r wybodaeth sy'n cynnwys Adroddiad yr Aelodau, y Sylwebaeth Rheoli a rhan yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth nas archwilir a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol. Nodaf hefyd p'un a yw'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob agwedd materol, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nodaf hefyd os, yn fy marn i, nad yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os nad yw'r wybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill wedi'i datgelu.

Adolygaf a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg â chanllawiau Trysorlys EM, a nodaf os nad yw'n adlewyrchu hyn. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, nac i lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Bwrdd yr Iaith Gymraeg na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Rwyf yn darllen y wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys Adroddiad yr Aelodau, y Sylwadaeth Rheoli a rhan yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth nas archwilir. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamdatganiadau amlwg neu anghysondebau materol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Bwrdd a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a ph'un ai'r polisïau cyfrifyddu hynny sydd fwyaf priodol i amgylchiadau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad materol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth i'w harchwilio, boed hynny drwy dwyll neu wall a bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd materol a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth i'w harchwilio.

Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru o gyflwr materion Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2010 a'r gwariant net, a'r llifoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg a Chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno;
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys Adroddiad yr Aelodau, y Sylwebaeth Rheoli a rhan yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth nas archwilir, a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd materol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gillian Body

Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

1 Gorffennaf 2010

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Cyfrif Gwariant Net am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010

	Nodiadau	2009-2010		2008-2009	
		£000	£000	£000	£000
Gwariant					
Grantiau	4	7,522		7,423	
Gwariant rhaglenni eraill	7	2,565		2,520	
Costau Staff	5	3,374		3,199	
Gweinyddu	6	897		890	
Dibrisiant ac amorteiddiad	8a, 8b	128		127	
			14,486		14,159
Incwm	3	(728)		(674)	
			(728)		(674)
Gwariant Net			13,758		13,485
Llog tybiedig ar gyfalaf	1.7	23		27	
Llog a dderbyniwyd		(1)		(15)	
Llog a ildwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru		1		15	
			23		27
Gwariant Net ar ôl cost a thâl cyfalaf a llog			13,781		13,512

Mae'r holl weithgareddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 37 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2010

		31 Mawrth 2010		31 Mawrth 2009		1 Ebrill 2008	
Nodiadau		£000	£000	£000	£000	£000	£000
Asedion nad ydynt yn gyfredol							
Asedion anghyfyrdadwy Eiddo, Offer a pheiriannau	8a	29		35		41	
	8b	251		295		337	
Cyfanswm asedion nad ydynt yn gyfredol			280		330		378
Asedion cyfredol							
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	9	360		509		619	
Arian parod ac arian cyfwerth	10	115		-		228	
Cyfanswm Asedion Cyfredol			475		509		847
Cyfanswm Asedion			755		839		1225
Rhwymedigaethau cyfredol							
Gorddrafft		-		(13)		-	
Masnach a symiau eraill sy'n daliadwy	11	(154)		(121)		(408)	
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol			(154)		(134)		(408)
Cyfanswm asedion nad ydynt yn gyfredol ac asedion cyfredol net			601		705		817

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Datganiad Sefyllfa Ariannol (parhad) ar 31 Mawrth 2010

	Nodiadau	31 Mawrth 2010		31 Mawrth 2009		1 Ebrill 2008	
		£000	£000	£000	£000	£000	£000
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol							
Darpariaethau	12	<u>(5)</u>		<u>(4)</u>		<u>(4)</u>	
Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol			<u>(5)</u>		<u>(4)</u>		<u>(4)</u>
Asedion llai rhwymedigaethau			<u>596</u>		<u>701</u>		<u>813</u>
Cronfeydd Cronfa gyffredinol			<u>596</u>		<u>701</u>		<u>813</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 37 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r datganiadau ariannol ar dudalennau 22 i 26 wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar 24 Mehefin 2010 ac wedi ei awdurdodi ar ei ran gan:-

**Meirion Prys Jones,
Swyddog Cyfrifo,
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
24 Mehefin 2010**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Datganiad Llifoedd Arian am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010

	Nodiadau	2009-2010 £000	2008-2009 £000
Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant Net ar ôl cost a thâl cyfalaf a llog		(13,781)	(13,512)
Amorteddio ar asedion anghyfyrdadwy		15	14
Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau		113	113
Colled ar werthiant asedion nad ydynt yn gyfredol		1	0
Newidiadau mewn llog tybiedig ar gyfalaf		23	27
Defnydd o ddarpariaeth	12	1	0
Lleihad / (Cynnydd) mewn derbyniadau masnach ac asedion cyfredol arall		149	110
(Lleihad) / Cynnydd mewn taliadau masnach		33	(282)
(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu		(13,446)	(13,530)
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		1	15
Llog a ildwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru		(1)	(15)
Taliad i gaffael asedion anghyfyrdadwy	8a	(9)	(8)
Taliad i gaffael eiddo, offer a pheiriannau	8b	(71)	(77)
Derbyniadau am werthiant eiddo, offer a pheiriannau		1	1
(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi		(13,525)	(13,614)
Llifoedd arian o weithgareddau cyllido			
Cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (gan gynnwys cyfalaf)	2	13,653	13,373
Cyllido net		13,653	13,373
Cynnydd / (Lleihad) net mewn arian parod ac arian cyfwerth		128	(241)
Arian parod ac arian cyfwerth ar ddechrau'r cyfnod	10	(13)	228
Arian parod ac arian cyfwerth ar ddiwedd y cyfnod	10	115	(13)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 37 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Datganiad o Newidiadau Mewn Ecwiti'r Trethdalwr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010

	Nodiadau	Cyfanswm £000
Balans ar 31 Mawrth 2008		813
Newidiadau yng Nghronfeydd ar gyfer 2008-2009		
Gwarged/Diffyg a gadwyd		(13,512)
Costau nad ydynt yn gostau arian parod – cost cyfalaf		<u>27</u>
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2008-2009		(12,672)
Grant a ariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (refeniw a chyfalaf)		13,373
Balans ar 31 Mawrth 2009		<u>701</u>
Newidiadau yng Nghronfeydd ar gyfer 2009-2010		
Gwarged/(Diffyg) a gadwyd		(13,781)
Costau nad ydynt yn gostau arian parod – cost cyfalaf	1.7	<u>23</u>
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2009-2010		(13,057)
Grant a ariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (refeniw a chyfalaf)	2	13,653
Balans ar 31 Mawrth 2010		<u><u>596</u></u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 37 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

Nodiadau i'r Cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â *Government Financial Reporting Manual* (FReM) 2009-2010 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r polisiau cyfrifyddol a gynhelir yn FReM yn gweithredu Egwyddorion Adnodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer y cyd-destun sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir yn fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol Bwrdd yr Iaith Gymraeg, er mwyn rhoi barn gywir a theg. Disgrifir isod y polisiau neilltuol a ddilynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

1 Polisiau cyfrifo

(1.1) Confensiynau Cyfrifo

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nid yw'r Bwrdd wedi ailbrasio unrhyw eiddo, offer a pheiriannau nag unrhyw asedion anghyffyrddadwy gan nad yw addasiadau ailbrasio, ym marn y Bwrdd, yn sylweddol.

(1.2) Cyllid

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn derbyn cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ariannu ei refeniw cyffredinol a'i weithgareddau cyfalaf. Ystyrir y symiau hyn o Gymorth Grant yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn. Gall y Bwrdd dderbyn incwm o ffynonellau eraill sy'n unol â *Treasury's Fees and Charges Guide* pan na fydd hynny'n ymyrryd â'i brif swyddogaethau ac yn gyson â'i Gynllun Corfforaethol a pholisi'r Llywodraeth.

(1.3) Asedion Anghyffyrddadwy

Mae asedion sefydlog anghyffyrddadwy dros £100 yn cael eu cyfalafu. Mae'r asedion yma yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedu. Maent wedi eu hamorteiddio rhwng 3 i 10 mlynedd ar sail llinell syth.

Prisiwyd holl asedion sefydlog gan y Bwrdd ar gost hanesyddol a ddibrisiwyd gan nad yw addasiadau ailbrasio, ym marn y Bwrdd, yn sylweddol.

(1.4) Eiddo, Offer a Pheiriannau

Mae eiddo, offer a pheiriannau dros £100 yn cael eu cyfalafu. Darperir dibrisiant ar bob eiddo, offer a pheiriannau ar sail llinell syth dros fywyd defnyddiol disgwylidig yr asedion rhwng 36 a 90 mis.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

(1.5) Treth Ar Werth

Mae incwm o weithgareddau'n cynrychioli swm anfonebu'r gwasanaethau a ddarparwyd, yn net o TAW. Mae gwariant yn cynrychioli'r nwyddau a gwasanaethau a brynwyd, yn net o ostyngiadau a TAW y gellid ei hadennill.

(1.6) Pensiynau

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronodig Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am bensiynau a buddiannau tebyg i bersonau a gyflogir gan y Bwrdd ac am gostau gweinyddol sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

Mae gweithwyr cyffredol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Nodyn 5 (Niferoedd staff a chostau perthnasol)

(1.7) Cost Cyfalaf

Cynhwysir cost cyfalaf tybiedig a ddefnyddiwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n adlewyrchu'r gost cyfalaf a ddefnyddiwyd yn y Cyfrif Gwariant Net, gan gyfrifo (3.5% yn bresennol) o gyfartaledd o asedion llai rhwymedigaethau. Mae'r gost wedi ei gyfrifo ar sail raddfa a osodwyd gan y Trysorlys.

(1.8) Grantiau Dyledus

Caiff grantiau eu codi i'r Cyfrif Gwariant Net yn ystod y cyfnod pan fydd y gweithgaredd sydd yn creu hawl i'w dderbyn yn cael ei gynnal. Mae gan y Bwrdd yr hawl i adennill y cyfan neu ran o'r grant os yw'r sawl sy'n cael grant yn torri unrhyw un o'r amodau sydd yn rhan o'r cynnig grant. Credydur unrhyw ad-daliadau i'r cyfrif wrth eu derbyn.

(1.9) Elw a Cholled ar Gyfradd Gyfnewid

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosglwyddo i sterling ar y gyfradd a oedd yn bodoli ar y dyddiad hwnnw. Caiff gwahaniaethau cyfnewid eu cymryd i ystyriaeth yn y Cyfrif Gwariant Net. Caiff unrhyw falans a ddelir mewn arian dramor ei drosi ar y raddfa ar 31 Mawrth.

(1.10) Dyledion Gwael

Mae'r Bwrdd yn darparu ar gyfer dyledion pan ystyrir ganddo fod y siawns o adfeddiant yn llai na 50%.

(1.11) Trefniant ar y cyd nad yw'n Endid ar Wahân

Mae'r Bwrdd yn cyfrifo am ei diddordeb yn y *Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol* fel trefniant ar y cyd nad yw'n endid ar wahân ac felly'n cyfrifo am 10.21% 2009-2010 (14.37% 2008-2009) o'r incwm, gwariant, asedion a'r

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

rhwymedigaethau o'r Rhwydwaith. Mae aelodau'r Rhwydwaith yn cynnwys llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol, prifysgolion a chanolfannau ymchwil, mudiadau sydd y tu allan i'r llywodraeth, ynghyd â chyrff cynllunio ieithyddol ar draws Ewrop sy'n hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol, lleiafrifol, brodorol neu lai eu defnydd. Caiff y rhwydwaith ei ariannu gan dâl aelodaeth a grant oddi wrth y Comisiwn y Cymunedau Ewropeaidd. Mae'r Bwrdd yn darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer y *Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol*.

(1.12) Buddion Cyflogai

Cydnabyddir cyflogau, cyfraniadau nawdd cymdeithasol, bonysau taladwy a budd dâl ariannol ar gyfer cyflogaion cyfredol yn y Cyfrif Gwariant Net wrth i wasanaethau cyflogaion gael eu cyflawni. Nid yw'r Bwrdd yn rhoi cyfrif am absenoldebau tymor byr a ddiogolledir (gwyliau blynyddol taladwy) fel rhwymedigaeth (cost cronedig) lle disgwylir setlo'r iawndal absenoldeb o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r cyflogaion yn cyflawni'r gwasanaeth ynddo, am nad yw'r Bwrdd yn ystyried hwn yn faterol.

(1.13) Prydlesi

Mae rhentolion les gweithredol wedi eu cyflwyno i'r Cyfrif Gwariant Net yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

(1.14) Mabwysiadu IFRS am y Tro Cyntaf

Nid oedd unrhyw newidiadau i'r Cyfrif Gwariant Net na Ecwiti'r Trethdawr (cronfeydd) o ganlyniad o fabwysiadu IFRS am y tro cyntaf. Mae'n ofynnol i gyfrifon 2009-2010 ddatgelu'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2010, 31 Mawrth 2009 a 1 Ebrill 2008.

2 Cymorth grant o Lywodraeth Cynulliad Cymru

	2009-2010 £000	2008-2009 £000
Cymorth grant o Lywodraeth Cynulliad Cymru	13,653	13,373

3 Incwm

	2009-2010 £000	2008-2009 £000
Prosiect Addysg Drochi – Llywodraeth Cynulliad Cymru*	334	342
Prosiect Dilyniant – Llywodraeth Cynulliad Cymru*	204	172
Nawdd	36	64
Incwm arall	118	54
Cyfran y Bwrdd o Grant y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y <i>Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol</i>	14	13
Cyfran y Bwrdd o incwm aelodaeth y <i>Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol</i> .	22	29
	728	674

*Arweinir y prosiectau yma gan y Tîm Plant a Phobl Ifanc o fewn y Bwrdd.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

4 Grantiau

Mae'r grantiau canlynol yn daladwy o dan Adran 3(3) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:

	2009-2010	2008-2010
	£000	£000
Grantiau i hyrwyddo addysg Gymraeg	2,889	2,845
Grantiau i hyrwyddo'r iaith yn gyffredinol	4,633	4,540
Grantiau Busnes	-	38
	7,522	7,423

Mae rhestr lawn o'r holl grantiau a dalwyd neu sy'n ddyledus ar gael o swyddfeydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Talwyd £2,889,000 o'r grantiau i gyrff cyhoeddus i hyrwyddo addysg Gymraeg. Talwyd y gweddill i gyrff gwirfoddol a chyrrff yn y sector preifat.

5 Niferoedd Staff a Chostau Perthnasol

(a)	2009-2010				2008-2009
	Staff a gyflogir yn barhaol	Staff Arall*	Aelodau	Cyfanswm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cyflogau	2,493	71	103	2,667	2,516
Costau nawdd cymdeithasol	195	8	4	207	193
Costau pensiwn arall	479	12	9	500	490
Cyfanswm	3,167	91	116	3,374	3,199
(b) Niferoedd cyfartalog #	75	2	11	88	83

* Mae Staff arall yn cynnwys secondiadau mewnol, staff drwy asiantaeth a staff ar gontract tymor byr

Nifer cyfwerth llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn

Mae telerau ac amodau'r staff a gyflogir yn gyfatebol â rhai Llywodraeth Cynulliad Cymru. Penodwyd / ailbenodwyd aelodau'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2010 gan Weinidogion Cymru.

(c) Ceir gwybodaeth am fuddiannau cyflog a phensiwn y Cadeirydd, Aelodau'r Bwrdd a'r staff hŷn y Bwrdd, yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ar dudalennau 10 i 14.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

(ch) Pensiynau

Ceir manylion buddiannau yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ar dudalennau 10 i 14.

Mae CSP yn gynllun buddiannau diffiniedig a rennir gan nifer fawr o gyflogwyr, ac o ganlyniad nid oes modd adnabod cyfran y cyflogwr o'r asedion a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Mae gwybodaeth am fodolaeth gwarged neu ddiffyg yn y cynllun a'r goblygiadau i'r cyflogai ar gael yn y datganiad cynllun pensiwn blynyddol.

Talwyd cyfraniadau o £500,000 (2008-2009: £490,000) ar ran y staff a'r Cadeirydd i'r Tâl-feistr Cyffredinol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010, yn unol â'r cyfraddau a bennir o bryd i'w gilydd gan Actiwari'r Llywodraeth ac a hysbysir gan y Trysorlys. Yr oedd hynny'n amrywio o 16.7% i 24.3% o'r cyflog gros ar gyfer y flwyddyn (2008-2009: 17.1% i 25.5%). Mae'r graddfeydd cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau fel y maent yn cronni, nid y costau pan fyddant yn mynd i gostau, ac maent yn adlewyrchu profiad y gorffennol o'r cynllun.

(d) Cofrestr rhoddion

Mae gan y Bwrdd gofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o bwys materol i'w chynnwys yn y datganiadau hyn.

6 Gweinyddu

Yr oedd costau gweinyddu yn cynnwys:

	2009-2010 £000	2008-2009 £000
Llety - Rhent swyddfa	149	147
Llety - Costau arall *	200	197
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch	150	148
Hyfforddiant	124	122
Technoleg gwybodaeth & telathrebu	100	111
Gwasanaethau archwilwyr (tâl yr archwiliad allanol)	15	15
Gwasanaethau archwilwyr (gwaith archwilio allanol arall)	2	2
Costau rhedeg arall **	157	148
	897	890

* Mae costau llety arall yn cynnwys gwresogi, golau, ffioedd cynnal a chadw adeilad, taliadau annomestig a nwyddau swyddfa.

**Mae costau rhedeg arall yn cynnwys ffioedd megis costau cyfreithiol, ymgynghorwyr; gweinyddu'r gyflogres, recriwtio a chyfieithu.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

7 Gwariant Rhaglenni Eraill

Mae gwariant uniongyrchol yn gysylltiedig â nifer o'r prosiectau a ymgwymerwyd â hwy gan dimau'r Bwrdd. Mae'r prosiectau wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredol am y flwyddyn sy'n amodol i gymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ceir manylion y prosiectau yr ymgwymerwyd â hwy yn Adolygiad Blynyddol y Bwrdd.

	2009-2010	2008-2009
	£000	£000
Tîm Datblygu Cymunedol	1,005	1,017
Tîm Cynlluniau Iaith	215	147
Tîm Sector Preifat a Busnes	97	207
Tîm Plant a Phobl Ifanc	651	552
Tîm Gwasanaethau Canolog	184	186
Tîm Polisi a Therminoleg	356	390
Cyfran Bwrdd yr Iaith Gymraeg o'r <i>Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol</i>		
• Grant y Comisiwn Cymunedau Ewropeaidd	14	13
• Incwm aelodaeth	43	8
	2,565	2,520

8a Asedion Sefydlog Anghyfyrdadwy

	Trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Cost			
1 Ebrill 2009	106	23	129
Ychwanegiadau	9	-	9
Gwerthiannau	-	-	-
31 Mawrth 2010	115	23	138
Amorteiddiad			
1 Ebrill 2009	89	5	94
Cost am y flwyddyn	13	2	15
Gwerthiannau	-	-	-
31 Mawrth 2010	102	7	109
Gwerth net yn y llyfrau ar			
31 Mawrth 2010	13	16	29
Gwerth net yn y llyfrau ar			
1 Ebrill 2009	17	18	35

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

8b Eiddo, Offer a Pheiriannau

	Celf & Gosodiadau £000	Offer swyddfa * £000	Cyfanswm £000
Cost			
1 Ebrill 2009	602	421	1,023
Ychwanegiadau	15	56	71
Gwerthiannau	(6)	(32)	(38)
31 Mawrth 2010	611	445	1,056
Dibrisiant			
1 Ebrill 2009	413	315	728
Cost am y flwyddyn	58	55	113
Gwerthiannau	(5)	(31)	(36)
31 Mawrth 2010	466	339	805
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2010	145	106	251
Gwerth net yn y llyfrau ar 1 Ebrill 2009	189	106	295

* Mae offer swyddfa yn cynnwys offer technoleg gwybodaeth a c hyfathrebu.

Cyllido asedion; Nid oes gan y Bwrdd brydlesi cyllidol na chontractau Menter Cyllid Preifat. Eiddo'r Bwrdd yw'r holl asedion a ddatgelwyd uchod.

Nid oedd ymrwymadau cyfalaf cyfreithiol ar 31 Mawrth 2010.

O'r blaen, byddid yn datgelu gwelliannau a newidiadau i swyddfeydd, a hefyd gelfi swyddfa o dan benawdau ar wahân. Mae'r rhain bellach wedi eu dosbarthu o dan bennawd sengl (Celfi a gosodiadau) at ddibenion IFRS.

O'r blaen, byddid yn datgelu asedau anghyfyrrdadwy o dan bennawd sengl (Trwyddedau Meddalwedd). At ddibenion IFRS, mae'r rhain wedi eu hail-ddosbarthu rhwng Trwyddedau Meddalwedd a Thrwyddedau).

Gyda'r gweithrediad o Safonau Adrodd Cyllidol Rhyngwladol (IFRS), mae'r Bwrdd wedi adolygu ac ailraddio Asedion Anghyfyrrdadwy ac Eiddo, Offer a Pheiriannau, er mwyn cydymffurfio â'r penawdau a awgrymwyd.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

9a Derbyniadau Masnach ac Asedion Cyfredol Eraill

	31 Mawrth 2010 £000	31 Mawrth 2009 £000	1 Ebrill 2008 £000
Derbyniadau Masnach arall – Llywodraeth Cynulliad Cymru, Prosiectau Addysg Drochi a Dilyniant Ieithyddol	183	320	347
Derbyniadau eraill	17	29	186
Rhagdaliadau eraill	136	158	134
Treth ar Werth	12	-	4
Llai darpariaeth ar gyfer dyledion gwael	-	-	(52)
Cyfran Bwrdd yr Iaith Gymraeg o'r <i>Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol</i>	12	2	-
	360	509	619

9b Daliannau Mewn - Llywodraeth

	31 Mawrth 2010 £000	31 Mawrth 2009 £000	1 Ebrill 2008 £000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn			
Balans gyda chyrrff Llywodraeth Ganolog eraill	187	349	347
Balans gyda Llywodraeth Leol	46	53	46
	233	402	393

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.

10 Arian Parod ac Arian Cyfwerth

	£000
Balans ar 1 Ebrill 2008	228
Newidiadau Net mewn balans arian parod ac arian cyfwerth	(241)
Balans ar 31 Mawrth 2009	(13)
Newidiadau Net mewn balans arian parod ac arian cyfwerth	128
Balans ar 31 Mawrth 2010	115

Cafodd arian parod y Bwrdd i'w gadw mewn banc masnachol ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ddaliwyd unrhyw arian gyda'r Tâl-feistr Cyffredinol E.M. ar ddiwedd y flwyddyn

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

11a Taliadau Masnachol a Rhwymedigaethau Cyfredol

	31 Mawrth 2010 £000	31 Mawrth 2009 £000	1 Ebrill 2008 £000
Taliadau Masnachol	43	19	41
Croniadau	66	84	141
Treth ar Werth	-	2	-
Derbyniadau ymlaen llaw <i>Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol</i>	40	11	226
Derbyniadau ymlaen llaw	2	-	-
Cyfran Bwrdd yr Iaith Gymraeg o'r <i>Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol</i>	3	5	-
	154	121	408

11b Daliannau Mewn - Llywodraeth

	31 Mawrth 2010 £000	31 Mawrth 2009 £000	1 Ebrill 2008 £000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn			
Balans gyda chyrrff Llywodraeth Ganolog	-	-	-
Balans gyda Llywodraeth Leol	-	-	-
	-	-	-

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.

12 Darpariaethau ar Gyfer Rhwymedigaethau a Phriddiannau

	£000
Darpariaeth ar 1 Ebrill 2008	4
Cynnydd mewn darpariaeth	1
Swm a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(1)
Darpariaeth ar 31 Mawrth 2009	4
Darpariaeth ar 1 Ebrill 2009	4
Cynnydd mewn darpariaeth	1
Swm a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	-
Darpariaeth ar 31 Mawrth 2010	5

O dan gytundeb prydles adeilad y Bwrdd, rhaid darparu ar gyfer ailaddurno ei swyddfa bob 5 mlynedd. Mae'r Bwrdd yn darparu £1,000 bob blwyddyn er mwyn cydymffurfio â'r brydles ac mae'n defnyddio'r ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn y bydd yr ailaddurno'n digwydd ynddi.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

13 Ymrwymiadau o dan brydlesi

Mae cyfanswm y taliadau lleiafswm o dan brydlesi yn cael ei ddangos yn y tabl isod ar gyfer pob cyfnod.

Mae'r ymrwymiadau o dan brydlesi yn cynnwys:	31 Mawrth 2010 £000	Ail-osodwyd 31 Mawrth 2009 £000
Adeiladau		
O fewn blwyddyn	126	127
Rhwng dwy a phum mlynedd	481	494
Ar ôl pum mlynedd	315	429
	922	1,050
	31 Mawrth 2010 £000	31 Mawrth 2009 £000
Arall		
O fewn blwyddyn	6	5
Rhwng dwy a phum mlynedd	8	13
Ar ôl pum mlynedd	-	1
	14	19

Nid yw'r Bwrdd wedi dechrau ymwneud ag unrhyw lesi cyllidol, unrhyw ymrwymiadau o dan gontract PFI, nac unrhyw gontractau nad oedd modd eu canslo ag ymrwymiadau cyllidol.

14 Rhwymedigaethau Amodol a Ddatgelwyd o Dan IAS 37

Nid oedd rhwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2010.

15 Offerynnau Cyllidol

Gan na thelir anghenion ariannol y Bwrdd drwy gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae gan offerynnau cyllidol swyddogaeth fwy cyfrwng i'w chwarae wrth greu a rheoli risg na fyddai'n berthnasol i gorff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif o'r offerynnau cyllidol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anghyllidol yn unol â phryniant disgwylidig a gofynion defnyddio'r Bwrdd, felly nid yw'r Bwrdd yn agored i fawr o risg credyd, hylifedd na'r farchnad.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009-2010

16 Trafodion Gyda Phartion Cysylltiedig

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gorff gyhoeddus anadrannol a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cafodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg amryw drafodion arwyddocaol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Bwrdd â rhan mewn trafodion, yng nghwrs arferol ei fusnes ac yn unol â rheolau'r Bwrdd, lle datganodd yr aelodau canlynol a'r Prif Weithredwr ddiddordeb a ystyrir yn arwyddocaol:

- a) Mae'r Athro Colin Williams, Aelod o'r Bwrdd, yn Athro yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.
 - Talwyd o £13,185 i Ganolfan Gymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd ar gyfer y ddarpariaeth anffurfiol i ddysgwyr y Gymraeg.
- b) Marc Phillips, Aelod o'r Bwrdd,
 - Talwyd grant o £1,141,162 i Fudiad Ysgolion Meithrin. Mae gwraig Marc Phillips yn gyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin, swydd ddi-dâl.
 - Talwyd o £13,185 i Ganolfan Gymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd ar gyfer y ddarpariaeth anffurfiol i ddysgwyr y Gymraeg. Mae gwraig Marc Phillips yn gyflogedig gan y Ganolfan.
- c) Mae Huw Jones, Aelod o'r Bwrdd, yn ymddiriedolwr Nant Gwrtheyrn, swydd ddi-dâl.
 - Talwyd grant o £5,000 i Nant Gwrtheyrn ar gyfer prosiect marchnata.
- d) Meirion Prys Jones, y Prif Weithredwr.
 - Talwyd grant o £122,049 i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Mae brawd y Prif Weithredwr yn Gadeirydd y Gymdeithas, swydd ddi-dâl.

Mae chwaer-yng-nghyfraith y Prif Weithredwr yn aelod cyflogedig o Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor. Dyma drafodion y Bwrdd gyda'r Ganolfan dros y flwyddyn:-

 - Grant o £9,050 i Ganolfan Bedwyr ar gyfer y prosiect 'Gwasanaeth Enwau Lleoedd'.
 - Taliad o £18,422 i Ganolfan Bedwyr ar gyfer datblygu cronfa ddigidol Geiriadur yr Academi.